Cymdeithas Ddawns Werin Cymru
Welsh Folk Dance Society

ASESIAD RISG COVID-19 AR GYFER DAWNSIO GWERIN Y TU MEWN YNG NGHYMRU

Sesiynnau ymarfer a chadw'n heini tîmoedd yn unig.

TACHWEDD 2020

allwedd: A = Arweinydd D = Dawnswyr C = Cerddorion DA = Defnyddwyr arall y neuadd

	Disgrifiad perygl	**Rhai mewn perygl**	**Mesurau rheoli**
Cyn y weith-garedd	Ansicrwydd neu ddryswch rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â COVID-19	A + D + C	Rhaid i dimau dawns enwebu Swyddog COVID-19 a fydd yn gyfrifol am gynnal Polisi ac Asesiad Risg COVID-19 lleol. Hefyd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â COVID
	Ansicrwydd ynghylch gweithdrefnau defnyddio'r neuadd ar gyfer dawnsio.	A + D + C + DA	Dylai'r sefydliad sy'n berchen ar y neuadd neu gyfleuster arall ddarparu cyfarwyddiadau manwl ar gyfer ei ddefnyddio'n ddiogel gan gynnwys mynedfa / allanfa, glanhau a diheintio a defnyddio toiledau ag ati. Dylai'r tîm dawns lynu wrth y rhain.
	Mynd i mewn i'r neuadd cyn dawnsio	A + D + C	Peidio ag ymgynull ger pwynt mynediad y neuadd. Saniteiddio dwylo wrth fynd i mewn i'r neuadd. Cynnal pellter cymdeithasol - 2 fetr oddi wrth eich gilydd. Uchafswm

			o 30 unigolyn.
	Awyru'n annigonol neu'n cael ei ddefnyddio'n anghywir	A + D + C	Dilynwch gyfarwyddiadau a ddarperir gan y neuadd gan gynnwys defnydd systemau aerdymheru os ydynt yn bresennol. Dylid agor drysau a ffenestri allanol os yn bosibl.
	Bwyd a diod - risg o drosglwyddo	A + D + C +DA	Ni ddylid dod â bwyd i mewn i'r neuadd. Gall aelodau ddod â'u diod eu hunain – nid i'w rannu.
	Storio eitemau personol yn ddiogel	A + D + C	Aelodau i storio eitemau personol yn eu cerbydau eu hunain.
	Cyflwr iechyd aelodau	A + D + C	Arweinydd Tîm i wirio ar lafar nad oes gan aelodau symptomau o COVID-19, fel y disgrifir gan Lywodraeth Cymru, wrth gyrraedd. Dylid gofyn yn gwrtais i unrhyw unigolyn â symptomau ddychwelyd adref, hunan ynysu a gofyn am brawf antigen COVID-19.
	Trin arian parod a phapur - risg o drosglwyddo	A + D + C	Dylid dodi system ar-lein o gofrestri a thalu yn ei le.
	Gwybodaeth annigonol am aelodau ar gyfer pwrpasau "Profi, Olrhain, Diogelu"	A + D + C	Rhaid cadw cofrestr o'r rhai sy'n bresennol ym mhob cyfarfod yn cynnwys o leiaf enw a rhif ffôn cyswllt.
Cerddorion	Offerynnau a cherddoriaeth - risg trosglwyddo	C + D	Rhaid i gerddorion ddod â'u hofferynnau a'u cerddoriaeth eu hunain - dim rhannu.
	Perygl defnynnau / erosolau wrth chwarae	C + D	Ar gyfer y mwyafrif o offerynnau mae pellter cymdeithasol 2 fetr oddi wrth ei gilydd yn ddigonol, ond ni chaniateir offerynnau chwyth y tu mewn ar hyn o bryd.
Yn ystod y weith-garedd	Diffyg trefn yn gosod dawnsiau	D	Arweinydd y Tîm i alw enw'r ddawns allan ac enwi unigolion i lenwi pob set. Dawnswyr yn symud i'r safleoedd priodol.
	Mae dawnswyr yn aml yn agosach na 2 fetr at eu gilydd mewn dawnsio Gwerin.	D	Dylid paratoi fersiynau diwygiedig o'r holl ddawnsiau sydd i'w hymarfer sy'n sicrhau bod pellter cymdeithasol o 2 fetr yn cael ei gynnal trwy gydol y ddawns. Dewiswch ddawnsfeydd sy'n briodol i'r grŵp a'u dawnsio mewn tempo sy'n osgoi diffyg anadl ac anghysur sylweddol i ddawnswyr.

	Gormod o ddawnswyr am faint y neuadd.	D	Bydd nifer y setiau yn dibynnu ar faint y neuadd - ceisiwch osgoi gorlenwi (4 metr rhwng setiau). Cynghorir gwisgo mygydau hyd yn oed os gellir cynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr neu fwy.
	Dawnswyr yn rhy agos at rhai sydd ddim yn dawnsio	D	Naill ai - amlinellwch y gofod dawns yn glir a chadwch at hynny fel mai'r agosaf y gall dawnsiwr ddod at rhai nad ydynt yn dawnsio yw 2 fetr Neu - dawnswyr a rhai nad ydynt i wisgo mwgwd yn ystod yr holl weithgaredd
	Tripio, gwrthdrawiad neu anffawd arall wrth ddawnsio	D	Dawnswyr i wisgo dillad anffurfiol ac esgidiau addas. Arweinwyr i siarad trwy ddawnsiau anghyfarwydd a cheisio peidio â dodi dawnswyr llai profiadol gyda'i gilydd.
	Cymdeithasu gan rhai sydd ddim yn dawnsio	D	Pawb sydd dim yn dawnsio i gadw 2 fetr ar wahân bob amser.
Wedi'r weithgaredd	Risg o ddifwyno'r neuadd	A + D + C +DA	Rhaid diheintio pob pwynt cyswllt - cadeiriau, dolenni, switshis ag ati yn unol â pholisi COVID y neuadd
	Gadael y neuadd	A + D + C +DA	Peidio ag ymgynull ger allanfa'r neuadd. Cynnal pellter cymdeithasol - 2 fetr oddi wrth eich gilydd. Unigolyn enwebedig i fod yn gyfrifol am gloi'r neuadd a delio â'r allwedd / system larwm.